# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 12
15/06/20

## Tröedigaeth Saul

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams, Greg Leavers,
Morgan Bryn, Elin Bryn & Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net

Roedd Saul yn dal i fynd o gwmpas yn bygwth lladd dilynwyr yr Arglwydd. Roedd wedi mynd at yr Archoffeiriad i ofyn am lythyrau i synagogau Damascus yn rhoi'r hawl iddo arestio unrhyw un oedd yn dilyn y Ffordd. Roedd ganddo awdurdod i gadw dynion a merched yn y ddalfa a mynd â nhw'n gaeth i Jerwsalem.
Roedd yn agos at Damascus pan fflachiodd golau disglair o'r nefoedd o'i gwmpas. Syrthiodd ar lawr a chlywed llais yn dweud wrtho: “Saul? Saul? Pam wyt ti'n fy erlid i?”
“Pwy wyt ti, syr?” gofynnodd Saul. “Iesu ydw i,” atebodd, “yr un rwyt ti'n ei erlid. Nawr cod ar dy draed a dos i mewn i'r ddinas. Cei di wybod yno beth mae'n rhaid i ti ei wneud.”
Roedd y rhai oedd yn teithio gydag e'n sefyll yn fud; roedden nhw'n clywed y llais ond doedden nhw'n gweld neb. Cododd Saul ar ei draed, ond pan agorodd ei lygaid, doedd e ddim yn gallu gweld. Felly dyma nhw'n gafael yn ei law ac yn ei arwain i mewn i dre Damascus. Arhosodd yno am dri diwrnod. Roedd yn ddall ac yn gwrthod bwyta nac yfed dim.



Yn byw yn Damascus roedd disgybl o'r enw Ananias oedd wedi cael gweledigaeth o'r Arglwydd yn galw arno – “Ananias!”
“Ie, Arglwydd,” atebodd.
A dyma'r Arglwydd yn dweud wrtho, “Dos i dŷ Jwdas yn Stryd Union a gofyn am ddyn o Tarsus o'r enw Saul. Mae yno'n gweddïo. Dw i wedi dangos iddo y bydd dyn o'r enw Ananias yn mynd ato a gosod ei ddwylo arno iddo gael ei olwg yn ôl.”
“Ond Arglwydd,” meddai Ananias, “dw i wedi clywed llawer o hanesion am y dyn yma. Mae wedi gwneud pethau ofnadwy i dy bobl di yn Jerwsalem. Mae'r prif offeiriaid wedi rhoi awdurdod iddo ddod yma i arestio pawb sy'n credu ynot ti.”
Ond meddai'r Arglwydd wrth Ananias, “Dos! Dyma'r dyn dw i wedi'i ddewis i ddweud amdana i wrth bobl o genhedloedd eraill a'u brenhinoedd yn ogystal ag wrth bobl Israel. Bydda i'n dangos iddo y bydd e'i hun yn dioddef llawer am fy nilyn i.”
Felly dyma Ananias yn mynd. Aeth i mewn i'r tŷ, gosod ei ddwylo ar Saul a dweud wrtho, “Saul, frawd. Mae'r Arglwydd Iesu, wnaeth ymddangos i ti ar dy ffordd yma, wedi fy anfon i atat ti er mwyn i ti gael dy olwg yn ôl, a chei dy lenwi â'r Ysbryd Glân hefyd.” Yr eiliad honno dyma rywbeth tebyg i gen yn syrthio oddi ar lygaid Saul, ac roedd yn gallu gweld eto. Cododd ar ei draed a chafodd ei fedyddio. Wedyn cymerodd rywbeth i'w fwyta, a chael ei gryfder yn ôl.
Arhosodd Saul gyda'r disgyblion yn Damascus am beth amser.

*Actau 9:1-19 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd hi'n amser caled i ffrindiau Iesu. Roedd Saul ar eu holau nhw, yn ceisio'i rhoi nhw yn y carchar. Un diwrnod roedd Saul ar y ffordd i Ddamascus pan fflachiodd golau mawr. Syrthiodd i lawr a chlywodd lais yn dweud “Saul.” “Pwy wyt ti?” Meddai. “Iesu ydw i.” Cododd Saul ond roedd yn methu â gweld. Cafodd ei arwain i mewn i Ddamascus ac am dri diwrnod roedd yn gwrthod bwyta nac yfed unrhyw beth. Yna daeth dyn o'r enw Ananias a rhoi ei ddwylo arno fo. Cafodd Saul ei lenwi gyda'r Ysbryd Glân, ac roedd yn gallu gweld unwaith eto. Cafodd ei fedyddio a daeth yn ffrind i Iesu.

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1) Sut ddyn oedd Saul ar ddechrau’r hanes?
2) Pam wyt ti’n meddwl fod Saul mor gas gyda ffrindiau Iesu?
3) Pam wyt ti’n meddwl fod Saul wedi newid gymaint ar ôl cyfarfod â Iesu?
4) Beth wyt ti’n meddwl mae bod yn ffrind i Iesu yn ei olygu?




# Stori i'w lliwio

## Saul ar ei Ffordd i Ddamascus

Lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau gan Richard Gunther




Ysgrifennodd Paul, athro beiblaidd gwych, lawer iawn o bethau sydd yn y Testament Newydd. Ond doedd o ddim yn adnabod Iesu ar un adeg. Bryd hynny ei enw oedd Saul.



Roedd Saul yn caru Duw, ond roedd yn flin gynddeiriog gyda'r bobl oedd yn caru ac yn dilyn Iesu. Doedd Saul ddim wedi deall fod Iesu'n Fab Duw.




Gofynnodd Saul i'r arweinydd pwysicaf yn y Deml am ganiatâd i fynd i Ddamascus er mwyn dal ac arestio dilynwyr Iesu. Roedd Saul yn meddwl y byddai Duw wedi'i blesio'n fawr iawn am iddo wneud y fath beth.



Wrth iddo deithio ar hyd y ffordd i Ddamascus, yn sydyn, disgleiriodd goleuni llachar o'r nefoedd. Roedd Saul wedi dychryn gymaint fe syrthiodd yn un swp ar y llawr.





Yna fe glywodd lais o'r nefoedd yn dweud, "Saul, Saul, pam wyt ti'n gweithio mor galed i rwystro fy nghynlluniau i?'



Iesu oedd yn siarad â Saul."Iesu ydw i. Rwyt ti'n brifo dy hun drwy fy mrifo i," meddai'n dyner wrth Saul. "Dos i ddinas Damascus. Mae gen i waith i ti i'w wneud."



Pan oedd y golau llachar wedi cilio, ni allai Saul weld o gwbl. Roedd y bobl oedd gydag ef yn methu â deall beth oedd wedi digwydd.



Ond,roedd Saul wedi newid yn gyfan gwbl. Nawr roedd ei galon yn llawn cariad tuag at Iesu. Roedd o eisiau i bawb wybod am Iesu. Yn nes ymlaen, newidiodd Duw ei enw o Saul i Paul.



# Gweddi fer

O Dduw,

Diolch i Ti dy fod yn fy ngharu i bob amser.
Diolch i Ti dy fod Ti'n fy ngharu i, hyd yn oed pan ydw i'n gwneud pethau na ddylwn i – yn pechu.
Diolch i Ti dy fod Ti wedi anfon Iesu i'r byd er mwyn i mi allu bod yn ffrind i Ti.
Plîs maddau i mi am wneud pethau na ddylwn i, a helpa fi i newid.
Amen.

# Posau

## Adnod tu chwith!

Mae'r adnod wedi'i hysgrifennu tu chwith.
I ddatrys y pos byddi angen drych i dy helpu i weld y geiriau'n gywir.

**Dangosodd Duw i ni gymaint mae'n ein caru ni drwy i'r Meseia farw droson ni pan oedden ni'n dal i bechu yn ei erbyn!**

**Rhufeiniaid 5 adnod 8**

## Mae'r rhain yn troi'n...

Tynna linellau i gysylltu'r parau.













# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | D | A | D | I | S | G | L | A | I | R | D |
| LL | A | I | S | U | D | E | W | Y | L | C | A |
| U | L | T | S | E | R | L | I | D | R | O | M |
| E | F | R | D | I | O | I | T | S | E | R | A |
| G | A | S | I | W | E | D | E | A | E | R | S |
| T | C | R | E | D | U | S | I | L | W | TH | C |
| G | S | A | FF | W | S | A | TH | A | U | L | U |
| W | W | O | D | Y | E | I | I | W | G | A | S |
| E | R | E | U | L | I | N | O | LL | G | Y | S |
| DD | W | H | L | O | U | A | L | O | G | Y | LL |
| I | A | LL | A | D | O | N | P | A | U | L | B |
| O | G | FF | M | E | L | A | S | W | R | E | J |

ANANIAS
ARESTIO
ARWAIN
BYGWTH
CLYWED
CREDU
DALFA
DALL
DAMASCUS
DEWIS
DISGLAIR
DWYLO
ERLID
FFORDD
GOLAU
GWEDDIO
GWELD
JERWSALEM
LLAIS
LLYGAID
IESU
PAUL
SAUL
TARSUS
TEITHIO



# Dolenni




Sgetsh https://youtu.be/uEDGiNKDMeQ

Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/AV51UipeiLY

Fideo o'r stori https://youtu.be/tpcs4I0Ux3Y






Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=lIXFy3zjJh4

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://ww w.youtube.com/channel/UCzhjwum9-XieYxdQY-r1OJw *(cliciwch 'Subscribe')*

Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home

# Gweddi Greadigol

## Cael fy newid

**Bydd angen:**

- Hen geiniog fudr
- Potyn plastig gyda chaead arno
- Llond llwy fwrdd o halen
- Hanner cwpanaid o finegr
- Potyn i ddal dŵr
- Potyn i ddal y gymysgedd finegr a halen wedi ei ddefnyddio




**Sut i wneud**

- Edrycha ar y geiniog fudr.
- Mae yna rai pethau rydyn ni wedi'u gwneud sydd wedi gwneud ein bywyd ychydig yn fudr, yn debyg i'r geiniog - pethau y buasai'n well gennym ni os na fuasen ni wedi'u gwneud.
- Rydyn ni'n gallu gofyn i Iesu ein gwneud yn fwy tebyg iddo a chymryd y pethau sy'n ein gwneud ni ychydig yn fudr i ffwrdd. Mae Iesu'n gallu newid ein bywyd.
- Os wyt ti eisiau, gofynna i Iesu dy helpu i newid i fod yn debycach iddo.

Yn ôl at y geiniog ...

- Rho'r finegr a'r halen yn y potyn plastig.
- Rho dy geiniog yn y potyn a rho'r caead arno'n dynn.
- Yn ofalus, ysgwydda ychydig ar y potyn.
- Gwylia i weld beth sy'n digwydd i'r geiniog!
- Gad y geiniog am ychydig, yna gwagia'r gymysgedd finegr a halen i weld y geiniog.
- Golcha'r geiniog yn y dŵr.
- Beth sydd wedi digwydd?

Yn yr hanes yr wythnos hon, mae Saul yn newid mewn ffordd anhygoel ar ôl cyfarfod â Iesu. Mae'n newid o fod yn ddyn sy'n casàu ffrindiau Iesu ... ac yn dod yn ffrind i Iesu sy'n methu stopio dweud wrth bawb mor wych ydy O!

## Llygaid a chlustiau

Clywodd Saul lais Iesu a chlywodd Ananias lais Duw yn dweud wrtho am fynd a gosod ei ddwylo ar ben Saul. Wnaethon nhw glywed, gwrando a gweithredu.

- Gwrando – Eistedda'n rhywle yn yr ardd neu saf yn llonydd am ychydig o funudau'r tro nesaf y byddi'n mynd am dro. Faint o synau gwahanol fedri di eu clywed? Beth ydy'r pethau fedri di eu gweld?
- Diolcha i Dduw am yr holl bethau y gelli di eu gweld a'u clywed.
- Gofynna i Dduw dy helpu di i glywed ei lais yn glir.












# Sialensau

## Sialens BSL

Rai blynyddoedd yn ôl fe wnes i ddod yn ffrindiau gyda gwraig fyddar oedd yn dod i'r un eglwys â fi. Gofynnais i'r wraig hon os y byddai hi'n barod i ddysgu iaith arwyddo i mi fel fy mod yn gallu cyfarch ffrindiau eraill oedd yn fyddar mewn cynhadledd oeddwn i'n mynd iddi'n flynyddol. Dychmygwch syndod fy ffrindiau yn y gynhadledd pan wnes i arwyddo mewn BSL, eu hiaith nhw, bore da, sut ydach chi a sillafu fy enw.
Dysga di arwyddo dy enw mewn BSL.

Dyma ddolen i dy helpu: https://youtu.be/mkTeqA4kwUQ




## Golau llachar

Fedru di roi'r goleuadau hyn mewn trefn o'r disgleiriaf i'r lleiaf disglair?














## Masgiau - cyn ac ar ôl

Creua 2 fasg o wyneb Saul, un cyn iddo gwrdd ag Iesu ar y ffordd i Ddamascus a'r llall ar ei ôl iddo ddod yn ffrind i Iesu. Allet ti ddefnyddio dy fasgiau i ailadrodd y stori.



## Dillad tu chwith

Gwisga dy ddillad tu chwith am ddiwrnod. Os bydd rhywun yn gofyn i ti pam wyt ti'n gwneud hyn, dyweda hanes Saul wrthyn nhw.

Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?



# Crefft

## Sut i Wneud Caleidosgop






**Byddi angen :**

Silindr cardfwrdd ( tu mewn i bapur tŷ bach neu hanner 'Kitchen roll'),
Cerdyn gwyn A4,
Ffoil, Gwelltyn sy'n plygu,
Paent, Brwsh paent,
Pinnau ffelt, Pensil,
Siswrn, Tâp selo,
Pren mesur






1.Peintia'r silindr cardfwrdd a'i adael i sychu.



2.Mesura hyd y cardfwrdd silindr. Mae hwn yn y llun yn 10.5cm. Gwna lun petryal ar y cerdyn A4, 10.5cm ( neu beth bynnag ydy hyd dy silindr cardfwrdd) x 14 cm. Torra'r petryal allan.



3.Torra ddarn o ffoil a gorchuddia'r cerdyn siâp petryal a defnyddia dâp selo i roi'r ffoil yn sownd.



4.Rolia'r petryal â ffoil arno a'i osod tu mewn i'r silindr cardfwrdd.




5.Torra'r gwelltyn sy'n plygu yn gyfartal yn ei hanner.



6.Gyda'r tâp selo sticia'r gwelltyn yn y silindr cardfwrdd gan roi'r rhan wedi'i blygu dros yr ymyl.



7.Ar y cerdyn gwyn gwna amlinelliad o'r rôl tâp selo a thorra fo allan.



8.Gwna dwll ynghanol y cylch. Mae'r twll angen bod yn ddigon mawr i wthio'r gwelltyn trwyddo.



9.Addurna'r cylch â phatrymau amrywiol.



10.Gosoda'r cylch ar y gwelltyn gyda'r patrwm yn wynebu'r caleidosgop.



Edrycha i mewn dy galeidosgop a rhyfedda at yr holl adlewyrchiadau sy'n cael eu creu gan dy batrymau.



Er mwyn cael gwell adlewyrchiad fe allet ti ddefnyddio cerdyn drych. Torra 3 petryal a gwna brism trionglog i'w roi tu mewn i'r cardfwrdd silindr.

# Crefft

## Sbectol Silindrau Cardfwrdd





**Byddi angen:**

1 Silindr Cardfwrdd (y tu mewn i bapur tŷ bach neu ½ y tu mewn i 'Kitchen Roll')
Pinnau Ffelt,
Siswrn, Elastig,
Tyllwr, Styffylwr,
Glud



I wneud sbectol dilyna'r hyn sydd yn y lluniau.



















































Gelli addurno'r sbectol drwy ddefnyddio pinnau ffelt, sticeri neu hyd yn oed ffoil.



Gwna sbectol wahanol i bawb o'r teulu!

# Rysáit

## Smwddi ffrwythau

Sut fedrwch chi newid ffrwythau yn ddiod iachus a blasus?
Trwy wneud smwddi wrth gwrs!

**Bydd angen:**

- Tua 140g o ffrwythau meddal – mefus, mafon, llys neu fwyar duon.
- Gallwch ddefnyddio ffrwythau wedi'u rhewi, ond gadewch iddyn nhw feirioli am ychydig cyn eu defnyddio.
- Banana fach aeddfed
- Ychydig o ddŵr
- Mêl hylifol
- Hylifydd ("liquidiser")

*** Byddwch angen caniatâd oedolyn i ddefnyddio a gweithio'r peiriant ***

- Deilen neu ddwy o fintys i addurno
- Gwydr yfed



**Sut i'w wneud**

- Torra'r fanana yn dameidiau a'u rhoi yn yr hylifydd.
- Ychwanega'r ffrwythau, gan gadw un neu ddau i un ochr i addurno.
- Rho'r hylifydd ymlaen a'i adael i droi nes y bydd y ffrwythau wedi troi'n hylif. Yna ddiffodda'r hylifydd.
- Ychwanega ychydig o ddŵr i deneuo'r gymysgedd.
- Rho'r peiriant ymlaen eto am ychydig o eiliadau i gymysgu'r dŵr.
- Arllwysa'r hylif – dymwddi – i wydr.
- Diferaychydig o fêl hylifol ar ben y smwddi os wyt ti'n dymuno.
- Addurna gyda deilen mintys ac ychydig o'r ffrwythau.
- Mwynha!



# Canu

O fy nhraed i fy nghlust
'Motwm bol i fy mys,
Beth ŵyr Duw amdanaf?
Pan dwi'n ddrwg neu yn dda,
Pan dwi'n hapus neu na,
Beth ŵyr Duw amdanaf?

Mae'r ateb yn glir
Mae'n fy ngharu, mae'n wir,
Does dim ots pa fath blentyn ydwyf.
Mae'r ateb yn glir
Mae'n fy ngharu, mae'n wir
Ac mae'n cofio fy enw...




Hawlfraint 1980 Greg Leavers Cyf. Dafydd Timothy

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/AV51UipeiLY

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Gemau

## Mae Seimon yn dweud

**Byddi angen:**

- Galwr (Person i roi'r cyfarwyddyd)
- Pobl eraill i chwarae - gweddill y teulu

**Sut i chwarae**

Y Ffordd Draddodiadol : Os ydy'r galwr yn dweud, "mae Seimon yn dweud cyffyrdda'n dy drwyn" mae pawb i fod i gyffwrdd â'i drwyn. Os yw'r galwr yn dweud "Mae Seimon yn dweud stopia gyffwrdd yn dy drwyn"mae pawb yn stopio cyffwrdd â'i drwyn. h.y. os ydy'r enw Seimon yn y cyfarwyddyd rydach chi'n gwneud yr hyn sy'n cael ei ofyn i chi ei wneud.

Ond os ydy'r galwr yn dweud, "cyffyrdda yn dy drwyn neu stopia gyffwrdd dy drwyn"does neb i wneud yr un o'r cyfarwyddiadau. h.y. os nad yw'r enw Seimon yn y cyfarwyddyd dydych chi DDIM i wneud yr hyn sy'n cael ei ofyn i chi ei wneud.

Os wyt ti'n gwneud unrhywbeth dydy Seimon ddim wedi dweud wrthyt ti am ei wneud, rwyt ti allan o'r gêm.

**Amrywiad i'r gêm**

Cyflwyna ychydig o newidiadau i gyd-fynd â'r stori heddiw.
Mae Seimon yn dweud, "cerdda."
Mae Seimon yn dweud, "golau llachar yn disgleirio."
Mae Seimon yn dweud, "syrthia i'r llawr" ayyb
Mae Seimon yn dweud, "fedri di ddim gweld." (Cau dy lygaid.)

## Gêm y cwpanau

Fe newidiodd Saul yn gyfan gwbl yn yr hanes o'r Beibl. Roedd yn gas gyda ffrindiau Iesu ar y cychwyn, ond ar ôl cyfarfod â Iesu daeth yn ffrind iddo.

**Bydd angen:**

- 10 neu 12 o gwpanau plastig, neu gwpanau sy'n anodd eu torri
- Amserydd – oriawr neu ffôn



**Sut i chwarae**

- Gosod y cwpanau i sefyll ar fwrdd.
- Pan fydd yr amserydd yn cychwyn, tro pob cwpan ar eu pennau i lawr.
- Faint o amser wnest ti gymryd?
- Os oes mwy nag un chwaraewr, amsera'r chwaraewr nesaf.
- Pwy sy'n gallu troi'r cwpanau gyflymaf?
- Beth am roi ail gynnig arni i wella dy amser.

## Dadosod ac ailosod fflachlamp



**Byddi angen:**

- Fflachlamp
- Amserydd

**Sut i chwarae:**

- Dadosoda'r (tynnu popeth oddi wrth ei gilydd) fflachlamp a gosoda'r darnau'n ofalus nesaf at ei gilydd.
- Amsera dy hun yn dadosod y fflachlamp ac yna'n ei hail osod. (rhoi'r darnau at ei gilydd)
- Noda'r amser gymraist ti a gwna hyn eilwaith i weld os fedri di guro dy amser blaenorol neu mae'n bosibl i ti chwarae yn erbyn chwaraewr arall.

# Gemau

## Gemau â'r dwylo - pypedau cysgod

Dewch i ni edrych ar ein dwylo ac wrth wneud hynny cofiwn y dwylo caredig helpodd Saul i wneud ei ffordd i Ddamascus a'r modd y gosododd Ananias ei ddwylo ar ben Saul, yn enw Iesu, fel y gallai weld unwaith eto.

**Sut i chwarae**
Eisteddwch o flaen wal blaen gyda'r plant a rhowch fflachlamp lachar neu lamp y tu ôl i chi fel eich bod yn eistedd rhwng y lamp a'r wal.



Gan ddefnyddio'ch dwylo, dangoswch i'ch plentyn sut i wneud anifeiliaid amrywiol, wynebau neu siapiau eraill gyda'ch dwylo.
Unwaith yr ydych wedi meistroli ffurfio rhai o'r anifeiliaid a'r wynebau gyda'ch dwylo, gallwch ailadrodd yr hanes heddiw gyda'ch pypedau cysgod.
Os ydych yn dymuno gallwch ddefnyddio'r masgiau rydych wedi'u gwneud ar gyfer ailadrodd y stori.



## Hwyl gyda dy enw

Glywson ni hanes Saul yn newid yn yr hanes o'r Beibl. Ar ôl iddo ddod yn ffrind i Iesu, **newidiodd ei enw i Paul.**

**Bydd angen: papur a phensil**

**Sut i chwarae:**


- Ysgrifenna dy enw ar dop y papur.
- Newidia'r llythrennau sy'n dy enw o gwmpas i greu enwau newydd digri i ti dy hun.
- Ygrifenna nhw ar y papur.


## Dal y Cristion

Yn yr hanes roedd Saul ar ei ffordd i Ddamascus i ddal ffrindiau Iesu – y Cristnogion.

**Bydd angen:**

- Grid i bob chwaraewr 1-8 a A-F
- 5 set o 2 neu 3 o Gristnogion i bob chwaraewr
- Papur a phensil
- 2 chwaraewr





**Sut i chwarae:**

- Mae pob chwaraewr yn gosod ei Gristnogion ar y grid heb i'r chwaraewr arall weld.
- Mae pob chwaraewr yn cymryd tro i 'ddal' y Cristnogion trwy alw enw sgwâr e.e. A4 neu D8.
- Os mae'r chwaraewr yn llwyddo, mae'n rhoi (X) ar y sgwâr hwnnw i ddangos fod Cristion yno. Os mae'n methu, mae'n rhoi (O) i ddangos fod y sgwâr yn wag.
- Pan mae'r chwaraewr yn llwyddo i ddarganfod Cristion mae'n rhaid i'r chwaraewr arall ddweud "Wedi dal Cristion."
- Y cyntaf i ddal pob un o'r Cristnogion sy'n ennill.

